# SL(6)100 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn gosod gofynion ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion ar gyfer archebu a gwneud profion coronafeirws yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol trwy gywiro gwall a gyflwynwyd i'r rheoliadau hynny gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 ("Rheoliadau Rhif 3"), a osodwyd ar 30 Tachwedd 2021.

Roedd Rheoliad 8 o Reoliadau Rhif 3 yn mewnosod rheoliad 6HB(3) newydd i Reoliadau Teithio Rhyngwladol yn ymwneud â gofynion ynysu ar ôl cael canlyniadau prawf amhendant. Yn y testun Saesneg cyfeiriwyd at ynysu am 10 diwrnod, ond roedd y testun Cymraeg yn cyfeirio'n anghywir at ynysu am 14 diwrnod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r gwall yn y testun Cymru yn rheoliad 6HB(3) yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gadarnhau mai'r cyfnod ynysu yw 10 diwrnod.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 1 Rhagfyr 2021.

Yn benodol, nodwn y canlynol:

> *"Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i gywiro camgymeriad mewn diwygiad i'r Rheoliadau hynny a wnaed yn gynharach yr wythnos hon gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021. Bydd y Rheoliadau a wneir heddiw yn sicrhau bod testun Cymraeg a Saesneg rheoliad 6HB(3) yn gyson â'i gilydd. Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r cywiriad hwn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd ac i deithwyr allu dilyn set glir o reolau. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cysondeb yn parhau o ran y dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau nad yw'r gwall wedi effeithio ar unrhyw aelod o'r cyhoedd. Nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er ein bod yn ei resynu, yn ymarferol rydym yn cadarnhau na fydd y camgymeriad hwn yn effeithio ar unrhyw un yng Nghymru na'r DU cyn ei gywiro. Y rheswm am hyn yw bod y diwygiad wedi'i gywiro ar ail ddiwrnod y trefniadau newydd, ac felly ond newydd gael eu cymryd oedd "profion diwrnod 2". Ni fyddai canlyniadau unrhyw ganlyniadau profion amhendant a'r gwahaniaeth rhwng testunau'r cyfnodau ynysu o 10 diwrnod neu 14 diwrnod yn cael unrhyw effaith tan yr wythnos nesaf.*
>
> *Fodd bynnag, mae angen cywiro'r gwall hwn a chymryd camau ar frys gan y gallai canlyniad amhendant fod wedi'i roi ddoe neu heddiw a bydd angen i bobl gynllunio yn unol â hynny."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Rhagfyr 2021**